

# Erthygl: Dysgu o Bell ac Agored

## Crynodeb

Mae'r erthygl hon yn ystyried beth yw ystyr dysgu agored/dysgu o bell, a beth yw ei nodweddion, ei fanteision a'i anfanteision. Mae hefyd yn astudio costau, beth i'w ystyried wrth ddewis cwrs a sut mae paratoi.

## Beth yw dysgu o bell neu ddysgu agored?

Dysgu o bell yw unrhyw ddysgu sy'n digwydd heb eich bod chi'n bersonol yn yr un lle â'r hyfforddwr, yr athro neu'r athrawes, neu ddysgwyr eraill, am y cyfan neu'r rhan fwyaf o'r cwrs. Mae'n cael ei alw weithiau'n dysgu agored neu'n dysgu o bell, yn enwedig pan fydd angen efallai i chi gwrdd â thiwtor wyneb yn wyneb ar adegau penodol yn ystod y cwrs.

Mae cyrsiau dysgu o bell (sef cyrsiau gohebiaeth yn draddodiadol) ar gael ers dros 100 mlynedd. Erbyn hyn, mae cyfrifiaduron a dulliau amlgyfrwng yn cael eu defnyddio lawer mwy na'r system bost. Os nad ydych yn gallu cyrraedd ystafell ddosbarth, mae'n bosibl mai dysgu o bell fydd y dewis cywir i chi.

## Nodweddion dysgu o bell a dysgu agored

Mae cyrsiau dysgu o bell a dysgu agored yn defnyddio rhai neu'r cyfan o'r mathau canlynol o ddeunyddiau ac adnoddau:

- Podlediadau.
- Cyfryngau rhyngweithiol a chymdeithasol.
- Deunyddiau ysgrifenedig - llyfrau, taflenni, profion hunanasesu, taflenni gwaith.
- Rhaglenni teledu a radio.
- DVDs.
- Cyrsiau ar-lein (e-ddysgu) yn ogystal ag e-bost i gysylltu â thiwtoriaid.
- Fforymau cymuned ar-lein.
- Cyfarpar ar gyfer arbrofion.

Efallai byddwch chi'n cael deunyddiau cwrs yn y post, neu weithiau'n gorfod eu casglu o ganolfan leol. Efallai bydd tiwtor yn dosbarthu deunyddiau'r cwrs i chi'n bersonol ar ddechrau'r cwrs. Efallai byddwch chi'n llwytho deunyddiau i lawr o wefan, neu'n gallu eu cael drwy Rith-amgylchedd Dysgu (VLE). System gyfrifiadurol yw hon sy'n gadael i chi ryngweithio â'ch tiwtor a myfyrwyr eraill, defnyddio deunyddiau cwrs, sefyll profion a chyflwyno gwaith i'w farcio. Gallwch ddefnyddio Rhith-amgylchedd Dysgu o unrhyw gyfrifiadur.

Fel arfer, mae gennych aseiniadau ysgrifenedig neu ymarferol i'w gwneud, ac efallai bydd angen i chi eu hanfon at eich tiwtor yn y post neu mewn e-bost i'w marcio. Efallai byddwch yn cael cymorth parhaus arall gan eich tiwtor dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Efallai bydd angen i chi fynd i nifer o gyrsiau preswyl, tiwtorialau a gweithdai yn ystod y cwrs.

Mae rhai cyrsiau'n gyfunol (er enghraifft, gwaith plymwr) lle mae modd gwneud y rhan fwyaf o'r cwrs o bell, ond gyda chyfnod dwys o fynychu gweithdy neu ganolfan.

## Mathau o gyrsiau sydd ar gael

Mae llawer o wahanol fathau o gwrs ar gael drwy ddysgu o bell a/neu ddysgu agored, ac yn eu plith:

- Cyrsiau diddordeb cyffredinol a datblygiad personol.
- Ieithoedd.
- Sgiliau perthnasol i waith fel cadw cyfrifon, electroneg, therapi harddwch neu TG.
- Cyrsiau TGAU a Safon Uwch.
- Cyrsiau lefel Prifysgol, gan gynnwys graddau sylfaen, graddau a chyrsiau ôl-raddedig.
- Cymwysterau proffesiynol.

## Beth yw'r manteision a'r anfanteision?

## Manteision:

- Rydych chi'n gallu dewis eich amser a'ch lle eich hun i ddysgu, er enghraifft, yn gynnar y bore, yn hwyr y nos, yn y car (sain) neu ar y trên.
- Rydych chi'n gallu trefnu'r dysgu o gwmpas eich ffordd chi o fyw. Er enghraifft, fe allech chi gael egwyl o astudio oherwydd amgylchiadau personol os bydd angen.
- Weithiau, rydych chi'n gallu cymryd cymaint o amser ag y mynnwch i gwblhau'r cwrs (ond bydd cyfyngiadau amser gyda rhai cyrsiau).
- Mae cyn lleied â phosibl o deithio - bydd y rhan fwyaf o'r dysgu'n digwydd gartref.
- Rydych chi'n gallu dechrau rhai cyrsiau ar unrhyw adeg o'r flwyddyn yn hytrach na bod yn gaeth i amseroedd tymor ysgol neu goleg. Fodd bynnag, mae cyrsiau sydd ynghlwm wrth gymwysterau sy'n cael eu hasesu'n allanol yn fwy tebygol o gael nifer o amseroedd cychwyn penodol, a ffrâm amser penodol hefyd.
- Mae'n bosibl y byddwch chi'n cael mwy o gyfle am gswllt un ac un â'ch tiwtor nag y byddech ar gwrs traddodiadol, ond hynny mewn pyliau byr, aml.

Hefyd, byddwch yn ennill sgiliau newydd na fydddech wedi cael cymaint o gyfle i'w datblygu efallai drwy wneud cwrs amser-llawn. Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys bod yn gyfrifol am eich dysgu eich hun a rheoli'ch amser.

Fe allai cyrsiau sy'n cael eu cynnig yn gyfan gwbl ar-lein eich helpu chi:

- Os ydych chi'n cael problemau symudedd neu iechyd a allai ei gwneud yn anodd i chi deithio neu fynychu cwrs traddodiadol mewn ystafell ddosbarth.
- Os ydych yn byw'n bell i ffwrdd o goleg neu ddarparwr hyfforddiant.
- Os ydych yn gweithio sifftiau.

## Anfanteision:

- Bydd angen llawer o hunanndisgyblaeth a chymhelliant arnoch i ddal ati.
- Efallai byddwch chi'n teimlo'n unig heb gael cyswllt wyneb yn wyneb ag athro neu hyfforddwr.
- Efallai bydd yn anoddach i chi ofyn cwestiynau am bynciau sy'n anodd i chi.
- Efallai byddwch yn colli'r cyfle i ddysgu gan bobl eraill sy'n gwneud yr un cwrs.
- Mae'n bosibl y bydd pethau'n torri ar eich traws os byddwch yn dysgu gartref.
- Efallai bydd angen i chi brynu cyfarpar a fyddai'n cael ei ddarparu ar eich cyfer ar gwrs amser-llawn, er enghraifft, cyfrifiadur neu lechen.

## Dewis cwrs

Bydd angen i chi ystyried y pethau canlynol:

- Y rheswm dros eisiau dysgu - ar gyfer gwaith neu ddiddordeb cyffredinol, er enghraifft.
- Beth rydych am ei gyflawni.
- Faint o amser sydd ar gael i chi.
- Ym mha amgylchiadau y gallech chi gael ad-daliad, er enghraifft, yn ystod cyfnod prawf, os ydych yn sâl, os nad ydych yn hoffi'r cwrs neu os ydych yn methu arholiad.

Pan fyddwch wrthi'n cymharu cyrsiau, edrychwch am y pethau canlynol:

- Darparwr a chwrs sy'n cael eu hachredu gan y sefydliadau proffesiynol neu genedlaethol perthnasol.
- Cwrs sy'n cael ei gynnig ar y lefel gywir i chi - mae rhai darparwyr yn gadael i chi gwblhau cwrs 'blas' rhad ac am ddim neu siarad â myfyrwyr presennol neu gyn-fyfyrwyr.
- Un sy'n darparu'r lefel gywir o gymorth i chi.

Sylwch: mae dau fath o achredu'n berthnasol yma. Yn gyntaf, mae modd i ddarparwyr cwrs gael eu hachredu gyda'r Cyngor Ansawdd Dysgu Agored a Dysgu o Bell (ODLQC). Yn ôl y Cyngor hwnnw, bydd dysgwyr yn cael cyfle dysgu o ansawdd gan y darparwyr sydd wedi'u hachredu ond nid yw'n dilysu unrhyw ganlyniadau cwrs. Ar y llaw arall, nid yw achrediad cwrs gan lawer o gyrff dyfarnu'n dweud dim am ansawdd yr hyfforddiant sydd ar gael, ond mae'n dilysu'r canlyniad. Mae angen i chi ymchwilio'n ofalus i'r cwrs a'r darparwr er mwyn bod yn gwbl fodlon ar y safonau sy'n cael eu cynnig.

## Costau

Mae rhai cyrsiau ar-lein rhad ac am ddim ar gael, ond bydd rhaid i chi dalu am y mwyafrif o gyrsiau dysgu o bell. Mae'n werth cymharu costau cyrsiau gan wahanol ddarparwyr hyfforddiant, a chymharu beth sy'n cael ei gynnwys yn y pris. Er enghraifft, efallai bydd rhaid i chi dalu'n ychwanegol am arholiadau neu i fynychu sesiynau preswyl.

Cofiwch, os byddwch yn gadael y cwrs, hyd yn oed yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf, mae'n bosibl y byddwch chi'n colli'ch arian. Felly mae angen i chi ddarllen y print mân cyn i chi gofrestru i wneud cwrs, yn enwedig y print mân am ad-daliadau.

Ar gyfer rhai cyrsiau dysgu o bell sy'n berthnasol i waith, efallai byddwch yn gymwys am Fenthyciad Datblygu Gyrfa Proffesiynol gan fanc. Nid oes rhaid i chi ddechrau ad-dalu'r benthyciad nes ar ôl i chi orffen y cwrs. Os byddwch yn gadael y cwrs, bydd rhaid i chi ad-dalu'r benthyciad i'r banc o hyd. Gallwch gael Benthyciad Datblygu Gyrfa Proffesiynol os ydych mewn swydd, yn hunangyflogedig neu'n ddiwaith. Mae rhagor o wybodaeth am y Benthyciadau Datblygu Gyrfa Proffesiynol ar gael ar wefan GOV.UK.

## Sut mae paratoi ar gyfer eich cwrs

Bydd angen i chi gynllunio'n ofalus cyn i chi ddechrau'r cwrs, er mwyn cael y mwyaf ohono. Bydd angen i chi benderfynu am sawl awr yr wythnos y byddwch chi'n astudio, a sut byddwch chi'n rhannu'r oriau hyn. Er enghraifft, a fyddwch chi'n astudio rhywfaint bob dydd, neu ar y penwythnos yn unig?

Chwiliwch am le yn eich cartref lle gallwch chi astudio'n dawel. A oes ystafell ar gael i'w defnyddio, neu a fydd rhaid i chi ddod o hyd i gornel sbâr i gadw'ch gwaith papur? Efallai bydd angen i chi baratoi silff neu gwpwrdd a phrynu ffolderi a chyfarpar arall er mwyn bod yn drefnus o'r cychwyn cyntaf.

Os oes amser maith wedi bod ers i chi astudio diwethaf, efallai byddwch yn gallu gwneud cwrs dychwelyd i astudio neu sgiliau astudio (drwy ddysgu o bell) cyn i chi ddechrau.

Gofynnwch am gymorth gan eich teulu a'ch ffrindiau. Mae'n bosibl y gallan nhw helpu drwy wneud ychydig o waith ty i chi, neu drwy fynd allan am dro a'ch gadael i weithio'n dawel.

Fel arfer, mae angen bod cyfrifiadur/gliniadur/llechen ar gael i chi, a'r Rhyngwrwyd, a hynny naill ai gartref neu mewn llyfrgell, canolfan ddysgu leol neu rywle arall. Gan ddibynnu ar y cwrs, efallai bydd angen i chi gael

meddalwedd a/neu galedwedd penodol.

Efallai bydd rhaid i chi drefnu amser gwyliau i sefyll arholiadau neu brofion, neu i fynychu canolfannau preswyl neu weithdai. Os yw'r cwrs yn berthnasol i'ch gwaith, efallai bydd eich cyflogwr yn gadael i chi gael amser i ffwrdd ar gyfer arholiadau ac adolygu.

Gosodwch dargedau realistig o ran beth allwch chi ei gyflawni yn yr amser sydd ar gael i chi.

## Yn ystod y cwrs

Mae rhai cyrsiau gwyddoniaeth yn cynnwys gweithgareddau ymarferol sy'n addas i'w gwneud gartref ac arbrofion labordy lle bydd angen i chi fynd i labordy efallai. Bydd angen i chi ofyn i'ch ysgol neu'ch coleg addysg bellach lleol a allwch ddefnyddio un o'u labordai nhw.

Fe allai fod profion ymarferol gorfodol ar gyfer rhai cymwysterau.

Gan ddibynnu ar y cwrs, efallai bydd angen i chi drefnu cofrestru eich hun ar gyfer arholiadau mewn ysgol neu goleg lleol a thalu unrhyw ffioedd cysylltiedig. Gwnwch yn siwr fod gwybodaeth am arholiadau'n cael ei chynnwys gyda'ch deunyddiau cwrs a gofynnwch i gydlynnydd eich cwrs roi arweiniad i chi.

Ar gyfer rhai cyrsiau, mae gofyn i chi wneud profiad gwaith ymarferol er mwyn adeiladu portffolio o dystiolaeth eich bod wedi arddangos sgiliau penodol. Er enghraifft, os ydych yn gwneud cwrs dysgu o bell mewn ymarfer cyn ysgol, fel arfer bydd angen i chi dreulio tua chwech i wyth awr yr wythnos mewn

cylch chwarae cyn ysgol, ysgol feithrin neu ddothbarth derbyn ysgol gynradd.

## Gwybodaeth Bellach

### Cysylltiadau

- **Open University (OU)**  
Ffôn 0845 3006090  
Gwefan [www.open.ac.uk](http://www.open.ac.uk)

- **Professional and Career Development Loans - Guide**  
UK government services and information  
Gwefan [www.gov.uk/career-development-loans](https://www.gov.uk/career-development-loans)